

Cyflwyniad:
Bydd y poster yma yn trafod sgiliau astudio effeithiol ar gyfer ddatblygu y sgil o ysgrifennu yn academiaidd. Bydd y poster yn cynnwys pa rinweddau sydd yn arwain at lwyddo yn y sgil academiaidd, megis rheoli amser, cymryd nodiadau ac i ymchwilio a meddwl yn feirniadol.

Rheoli amser
Hawlia Cottrell(2019) pwysigrwydd chadw dyddiadur er mwyn rheoli amser yn effeithiol. Felly mae ysgrifennu popeth yn y dyddiadur, gan gynnwys cynllunio, astudio, trefnu ac amser hamdden. Mae rheoli gwrthdysiadau yn allweddol i lwyddo rheoli amser. Mae'r Brifysgol Agored (2023) yn cefnogi hyn drwy awgrymu gosod nodau realistig a chynllunio amser. Yn ogystal awgryma'r Brifysgol Agored (2023) bod cynllunio yn ffactor buddiol er mwyn osgoi gwrthdysiadau wrth astudio.
Pwysleisia Burns a Sinfield (2022) taw cynllunio yw'r offer gyntaf er mwyn cael rheolaeth i sicrhau llwyddiant yn rheoli amser. Yn ogystal, awgryma pwysigrwydd darganfod pa amser o'r dydd sydd orau i'r myfyrwyr personol astudio a sicrhau mae amser ychwanegol llyn y dydd yn cael ei adael i sicrhau bod unrhyw dasgau megis glanhau, teithio, ymlacio gyda'r teulu a ffrindiau yn rhydd. Mynna Burns a Sinfield (2022) hefyd bod cael amserlen yn gallu helpu rhai myfyrwyr gan mae'n rhoi trefn ar ba amser sydd wedi cael ei leoli i astudio.
Mae trefnu amser yn bwysig gan ei fod yn cynnig llai straen oherwydd bod popeth sydd angen cael ei chwblhau wedi cael ei gynllunio (Prifysgol Lincoln, 2023) Yn ogystal awgryma Prifysgol Lincoln (2023) bod y dechneg astudio Pomodoro yn galluogi llwyddiant yn rheoli amser gyda gweithio am 25 munud ac ymlacio am 5 munud. Felly mae'n cyd-fynd gyda chymbwysio astudio ac ymlacio.

Cymryd Nodiadau:
Mynna Prifysgol Caeredin(2023) taw strategaeth dda ar gyfer cymryd nodiadau yw crynhoi prif syniadau ac yn ogystal fod creu nodiadau yn ffordd well i feddwl yn hytrach na chymryd nodiadau gan gred fod creu nodiadau yn helpu'r myfyrwyr i ddangos ei dealltwriaeth yn well. Noda Hopkins a Reid (2018) bod cymryd nodiadau effeithiol hefyd yn cynnwys ychwanegu at y nodiadau gwreiddiol gan ychwanegu manylder i'r nodiadau gwreiddiol o ddarlithoedd. Golyga hyn bod y nodiadau a fwy o ddyfnder ac ei fod yn well wrth baratoi aseiniadau. Yn ogystal, sonia Hopkins a Reid am bwysigrwydd cadw nodiadau yn gryno gan domi lawr ar y geiriau diangen ac ond cael y geiriau allweddol i ddechrau gyda. Awgryma Pears a Shield(2022) bod nodiadau linear yn dechneg fuddiol wrth gymryd nodiadau yn ystod darlith, gan wrth edrych nol ar y nodiadau yn hwyrach, mae'n atgoffa'r myfyriwr strwythur y topig o'r ddarlith. Er hyn maent yn awgrymu i ddarllen nol trwyddo y nodiadau ac i atgyfnerthu'r prif syniadau er mwyn cadw'r nodiadau yn fwy trefnus.
Pwysleisia Cottrell (2019) pwysigrwydd cadw nodiadau yn gryno. Dywed gan nodi gymaint o nodiadau, mae myfyrwyr yn gallu colli allan rhagor o nodiadau pwysig.

Ymchwil a meddwl yn feirniadol
Dywed Pears a Sheers (2022) wrth ddarllen ac ymchwilio ei fod yn bwysig i sicrhau bod cyfeiriadau trwygydol y llyfr er mwyn ystyried ei fod yn ymchwil ddibynadwy. Mae rhestr cyfeirnod yn dangos bod ymchwil ac ymdrech wedi mynd mewn i'r llyfr ac felly bod yr awdur yn deall beth maent yn siarad amdano.
Awgryma Day (2018) wrth ddarllen, mae angen sicrhau bod y llyfr yn awdurdodol. Hynny yw, sicrhau bod y myfyriwr yn adnabod yr awdur ac i gofio fod llyfrau a gwefannau academiaidd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn a'r awdur os mae'n ffynhonnell ddibynadwy. Os mae yna restr cyfeirnod i chyfeirnod trwygydol y llyfr, meddylia fod yn ddeunydd dibynadwy gan fod tystiolaeth wedi cael ei nodi yn ogystal.
Golyga meddwl yn feirniadol bod angen cwestiynu popeth ac i feddwl ble mae'r wybodaeth wedi ymgasglu o ac os oes modd ymddiried ynddo (Eales-Reynolds et al., 2013) . Ymhellach, dywed Prifysgol Caeredin (2023) fod rhinwedd o feddwl yn feirniadol yw cymharu gwahanol lyfrau er mwyn cael dealltwriaeth a syniadau eang o'r pwnc.
Noda Smale a Fowlie (2015) ei fod yn hanfodol i werthuso'r hyn sydd wedi cael ei darllen ac ymchwilio cyn atodi'r aseiniad. I ategu dywed bod cadw cofnod o'r ymchwil yn fuddiol er mwyn allu ail-ddarllen a sicrhau bod dealltwriaeth o'r ymchwil cyn iddo gael ei ychwanegu.

Casgliad:
I gloi mae sgiliau academiaidd megis rheoli amser, cymryd nodiadau a meddwl yn feirniadol yn hynod o bwysig er mwyn ddatblygu fel myfyriwr. Mae cadw rheolaeth amser cryf yn galluogi llwyddiant wrth gymryd nodiadau ac i feddwl yn feirniadol. Mae cymryd dyddiadau, aralleirio nodiadau ac efelychu gwaith ymchwil yn strategaethau cadarnhaol ar gyfer llwyddo yn y brifysgol.

Rhestr cyfeirnod

Burns,T. A Sinfield, S. (2022) Essential study skills. *the complete guide to success at university*. 5th edn. Llundain: Sage Publishers.

Cottrell, S. (2019) *The study skills handbook*. 5th edn. Llundain: Red globe press.

Day, T. (2018) *Success in academic writing*. 2nd edn. Basingstoke, Hampshire:, Palgrave Macmillan.

Eales-Reynolds, Lesley-Jane,, Judge,B., Jones,P. A McCreery,E. (2013) *Critical thinking skills for students*. 2nd edn. Llundain: Sage Publishers.

Hopkins,D. a Reid,T. (2018) *The academic skills handboook*, Llundain.

Peers,R. a Sheilds,G. (2022) *Cite them right, the essential refrencing guide*, Llundain: Bloomsbury publishing inc.

Prifysgol Caeredin (2023) *Making notes in class*, Caeredin. Ar gael: <https://www.ed.ac.uk/institute-academic-development/study-hub/learning-resources/making-notes-in-class> (cyrchwyd: 13 Hydref 2023).

Prifysgol Caeredin (2023) *critical thinking*, Caeredin. Ar gael: <https://www.ed.ac.uk/institute-academic-development/study-hub/learning-resources/critical> (cyrchwyd: 18 Hydref 2023).

Prifysgol Lincoln (2023) *The power of effective time management*, Lincoln. Ar gael: <https://online.lincoln.ac.uk/the-power-of-effective-time-management/> (cyrchwyd: 16 Hydref 2023).

Smale,B., Fowlie,J. (2015) *How to succeed at university, an essential guide to academic skills, personal development and employability*,2nd edn. Llundain: Sage Publishers.

The Open University (2023) *Time management skills*. Ar gael: <https://help.open.ac.uk/time-management-skills> (cyrchwyd: 11 Hydref 2023).